



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU



Swyddfa Archwilio Cymru

Strategaeth Pobl hyd 2021

Pam rydyn ni yma



Sicrhau

pobl Cymru bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n dda.



Egluro

sut mae arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio i ddiwallu anghenion pobl.



Ysbrydoli

a grymuso'r sector cyhoeddus yng Nghymru i wella.

Ein huchelgais

Dangos esiampl i'r sector cyhoeddus yng Nghymru a'r tu hwnt.



Rydyn ni'n gwneud gwahaniaeth

Ein safbwynt unigryw, ein llais annibynnol, ein dylanwad a'n perthnasedd – ar y materion pwysicaf ar draws ein gwasanaethau cyhoeddus.



1

Rydyn ni'n gwneud gwahaniaeth

1. Rydyn ni'n asesu anghenion heddiw a'r dyfodol o ran capasiti, gwybodaeth, sgiliau a phrofiad yn rheolaidd.

2. Mae ein strategaethau'n ddarbodus ac yn hyblyg, gyda thîm arweinyddiaeth llai.

3. Mae ein cynllun dysgu a datblygu yn cefnogi ein pobl, ein huchelgais a'n strategaeth, gan sicrhau bod gennym y sgiliau cywir i ddarparu gwaith o ansawdd, nawr ac yn y dyfodol¹.

4. Rydyn ni'n cynllunio er mwyn denu a chadw talent, gyda phecyn cyflog da am waith diddorol sy'n gwneud gwahaniaeth.

1. Ein meysydd datblygu sgiliau allweddol yw: arweinyddiaeth ddilys a rheolwyr gwych; dadansoddeg data a gweithio'n ddigidol; cyfathrebu, ymgysylltu ac adeiladu perthnasau; hyfforddiant technegol a phroffesiynol; sgiliau ymchwil; sgiliau iaith Gymraeg; amrywiaeth a chynhwysiant.

Rydyn ni'r gorau y gallwn fod

Rydyn ni i gyd yn teimlo bod cefnogaeth dda i'n datblygiad personol, proffesiynol a gyrfaol.

2



Rydyn ni'r gorau gallwn fod

- 1.** Mae ein diwylliant hyfforddi'n golygu ein bod yn teimlo'n hyderus, wedi'n grymuso a'n hysbrydoli. Bydd rhoi a derbyn adborth yn unol â'n gwerthoedd a'n hymddygiad yn ein helpu i wneud y mwyaf o'r ffordd rydyn ni'n cydweithio.
- 2.** Rydyn ni'n trin pobl yn dda ac yn cefnogi eu llesiant a'u twf personol.
- 3.** Mae ein cyfleoedd dysgu yn ein hannog i ddatblygu ein gyrfaedd, gan wneud Swyddfa Archwilio Cymru yn gyflogwr o ddewis. Rydyn ni'n gosod blaenoriaethau datblygu presennol yn ein cynllun dysgu a datblygu blynyddol.
- 4.** Rydyn ni'n darparu llwyfan hyfforddi ar gyfer arweinwyr sector cyhoeddus y dyfodol.

Rydyn ni'n gweithio'n fwy clyfar gyda'n gilydd

Yn y ffordd orau ar gyfer ein
busnes a'n pobl.

3




Rydyn ni'n gweithio'n fwy clyfar gyda'n gilydd

- 1.** Rydyn ni'n gweithio mewn ffordd integredig sy'n gwneud gwahaniaeth i wasanaethau cyhoeddus.
- 2.** Rydyn ni'n gweithio'n 'glyfar', drwy gefnogi a grymuso ein gilydd i ddarparu gwaith o ansawdd uchel.
- 3.** Gwneir penderfyniadau ar y lefel gywir ac yn gyflym, i sicrhau bod y cydbwysedd cywir gennym rhwng llywodraethu a grymuso.
- 4.** Rydyn ni'n gwneud y defnydd mwyaf o ddatrysiadau digidol, ac rydyn ni'n hyblyg yn y ffordd rydyn ni'n gweithio.

Rydyn ni'n lle gwyh i weithio â HYDER

Caiff ein gwerthoedd a'n hymddygiad eu hadlewyrchu ym mhwy ydyn ni a'r hyn rydyn ni'n ei wneud.

4



Rydyn ni'n lle gwych i weithio â HYDER

1. Mae ein polisiau a'n prosesau pobl yn gyson â'r gwerthoedd a'r ymddygiad rydyn ni'n ei ddisgwyl gan ein gilydd, ac maent yn cefnogi gweithle amrywiol a chynhwysol.


2. Mae ein huwch arweinwyr yn modelu ein gwerthoedd a'n hymddygiad, ac yn ysbrydoli eraill i wneud yr un peth.

3. Mae dealltwriaeth glir gennym i gyd o'r hyn mae Swyddfa Archwilio Cymru'n ei ddisgwyl gennym ni. Mae'n ddiogel i ni leisio'n barn os oes gennym bryderon.

4. Rydyn ni'n rhan o newid ac yn cael ein cefnogi drwyddo, a chawn ein grymuso i archwilio ffyrdd newydd o weithio.

Mae disgwyl i bob un ohonon ni ddangos yr ymddygiadau hyn

Llawn HYDER
GREAT Together



Hyblyg

Rydyn ni'n hyblyg ac arloesol, wastad yn datblygu ein sgiliau a'n gwybodaeth ac yn chwilio am brofiadau newydd.

Yn parchu'n gilydd

Rydyn ni'n croesawu amrywiaeth ac yn trin ein gilydd yn deg, meithrin perthnasau gweithio cryf, cyfleu ein barn yn ystyriol a bod yn agored i heriau.

Dibynadwy

Rydyn ni'n cymryd cyfrifoldeb dros ein gweithredoedd, rhannu gwybodaeth yn agored a gweithredu a chyflawni'n unol â'n gair ac er lles Swyddfa Archwilio Cymru gan alluogi eraill i lwyddo.

Egñiol



Rydyn ni'n hyderus ac yn barod i gymryd risgiau, gan ddangos agwedd bositif tuag at gyflawni a dathlu a mwynhau llwyddiant.

Rhinweddol a didwyll

Rydyn ni'n onest, anhunanol ac yn awyddus i gydweithio, gan greu awyrgylch agored a diogel lle y gall bawb ymddwyn fel nhw eu hunain ac i ofalu, cefnogi ac annog ein gilydd.


Blaenoriaethau ein Strategaeth Pobl

Rydyn ni'n uchelgeisiol er mwyn cyflawni pethau gwych, a byddwn yn blaenoriaethu'r canlynol hyd 2021:



Sut mae mesur llwyddiant

Dydyn ni ddim yn gweld yr angen i ailddyfeisio'r olwyn wrth fesur effaith y Strategaeth Pobl hon, felly byddwn ni'n defnyddio'r mecanweithiau canlynol sydd eisoes yn bodoli:



**Llawn HYDER
GREAT Together**